# CYNLLUN MARCIO TAG UG

## HAF 2017

## UG (NEWYDD)
## ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
## UNED 1 - OPSIWN D
## CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O FWDHAETH
## 2120ND0-51

Fersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**CYFLWYNIAD**

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2017. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cyfarfodydd arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y cyfarfod yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y cyfarfod oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghyfarfod yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion o fanylder neu ddehongliad.

Ni all CBAC ymwneud ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth ynglŷn â'r cynllun marcio hwn.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

## UG ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## Cyfarwyddiadau Marcio

### Marcio'n gadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi/chosbi am unrhyw bethau sydd wedi eu gadael allan. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Unig fwriad yr enghreifftiau yn y cynllun marcio yw bod yn ganllawiau defnyddiol. Felly, dylid rhoi credyd i unrhyw atebion eraill derbyniol neu addas er nad ydynt wedi'u nodi'n benodol yn y cynllun marcio.

Mae dwy brif frawddeg wedi'u gosod yn fwriadol drwy bob cynllun marcio i atgoffa arholwyr o'r athroniaeth hon. Y rhain yw:

- "Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o'r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill."
- "Nid rhestr wirio yw hon, cofiwch roi credyd am atebion dilys eraill."

### Rheolau Marcio

1. Bydd gwahaniaethu'n digwydd ar sail ymateb ymgeiswyr.

2. Ni all unrhyw gynllun marcio fyth ragweld neu gynnwys pob manylyn neu ddehongliad posibl; dylai arholwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu a yw ymateb penodol ymgeisydd yn ateb y cwestiwn mewn perthynas â'r amcan asesu penodol.

3. Yn aml bydd ymgeiswyr yn mynegi eu syniadau mewn iaith sy'n wahanol i'r un a ddefnyddir mewn unrhyw gynllun marcio neu amlinelliad. Felly, bydd marcio'n gadarnhaol gan arholwyr yn cydnabod ac yn rhoi credyd am fynegi syniadau cywir, pwyntiau dilys a dadleuon rhesymegol, waeth beth fo lefel yr iaith a ddefnyddir.

### Cynlluniau marcio wedi'u bandio

Mae cynlluniau marcio wedi'u bandio wedi'u rhannu fel bod gan bob band ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd yn darparu disgrifiad o lefel perfformiad y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau. Dylai'r arholwyr yn gyntaf ddarllen ateb yr ymgeisydd a'i anodi er mwyn canfod y dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Ar ôl cwblhau'r anodi, gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Gwneir hyn fel proses mewn dau gam.

### Cynlluniau marcio wedi'u bandio cam 1 - penderfynu ar y band

Wrth benderfynu ar fand, dylid ystyried yr ateb yn gyfannol. Gan ddechrau yn y band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a gwirio a yw'n cyfateb i'r disgrifydd ar gyfer y band hwnnw. Dylai arholwyr edrych ar ddisgrifydd y band hwnnw a gweld a yw'n cyfateb i'r nodweddion a welir yn ateb yr ymgeisydd. Os bodlonir y disgrifydd yn y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf a mynd trwy'r broses hon eto ar gyfer pob band nes bod y disgrifydd yn cyfateb i'r ateb.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

Os yw ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull ‘ffit orau’ i benderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond â maint cyfyngedig o gynnwys band 3, byddai’r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai’r marc a roddir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i’r cynnwys band 3.

**Cynlluniau marcio wedi'u bandio cam 2 - penderfynu ar y marc**

Ar ôl penderfynu ar y band, gall arholwyr roi marc. Yn ystod y cymedroli (yng nghynhadledd farcio'r Arholwyr), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ynghylch nodweddion pob band o farciau. Bydd yr arholwyr wedyn yn derbyn enghreifftiau o atebion ym mhob band o farciau sydd wedi’u marcio gan yr Uwch Arholwr. Dylai arholwyr farcio’r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â rhai’r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio’r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd o safon well na'r enghraifft, safon waeth neu safon debyg. Atgoffir arholwyr y dylent edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso’r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a’r marc y maent yn eu rhoi yn briodol i’r ateb a roddwyd. Mae cynnwys dangosol hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer cynlluniau marcio wedi'u bandio. Dydy’r cynnwys dangosol ddim yn gyflawn, a rhaid rhoi credyd am unrhyw bwyntiau dilys eraill. Er mwyn cyrraedd bandiau uchaf y cynllun marcio nid oes angen i ymgeisydd drafod yr holl bwyntiau sy’n cael eu crybwyll yn y cynnwys dangosol, ond rhaid iddo fodloni gofynion y band marciau uchaf.

**Peidio â rhoi marc o gwbl i ateb**

Pan na fydd ateb yn haeddu marciau, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth sy’n berthnasol i’r cwestiwn, neu pan na roddwyd unrhyw ateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

## Disgrifyddion Band Generig UG

| Band | Amcan Asesu AA1 – Cwestiynau rhan (a) 15 marc<br><br>*Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred, yn cynnwys:*<br>- *meddylfryd a dysgeidiaeth grefyddol, athronyddol a/neu foesegol*<br>- *dylanwad credoau, dysgeidiaeth ac arferion ar unigolion, cymunedau a chymdeithasau*<br>- *achos ac arwyddocâd yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn cred, dysgeidiaeth ac arfer*<br>- *ymagweddau at astudio crefydd a chred.* |
|---|---|
| 5 | **13-15 marc**<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr, gywir a pherthnasol o grefydd a chred.<br>• Ateb helaeth a pherthnasol sy'n bodloni gofynion penodol y cwestiwn a osodwyd.<br>• Ceir cydlyniad, eglurder a threfn o safon ragorol yn yr ateb.<br>• Mae'r ateb yn dangos dyfnder a/neu ehangder sylweddol. Defnydd rhagorol o dystiolaeth ac enghreifftiau.<br>• Cyfeiriadau trylwyr a chywir at destunau cysegredig a ffynonellau o ddoethineb, lle bo'n briodol.<br>• Defnydd trylwyr a chywir o iaith/geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Sillafu, atalnodi a gramadeg rhagorol. |
| 4 | **10-12 marc**<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gywir a pherthnasol o grefydd a chred.<br>• Ateb manwl a pherthnasol sy'n bodloni gofynion penodol y cwestiwn a osodwyd.<br>• Ceir cydlyniad, eglurder a threfn o safon uchel iawn yn yr ateb.<br>• Mae'r ateb yn dangos dyfnder a/neu ehangder. Defnydd da o dystiolaeth ac enghreifftiau.<br>• Cyfeiriadau cywir at destunau cysegredig a ffynonellau doethineb, lle bo'n briodol.<br>• Defnydd cywir o iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Sillafu, atalnodi a gramadeg da iawn. |
| 3 | **7-9 marc**<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gywir a pherthnasol ar y cyfan o grefydd a chred.<br>• Ateb boddhaol, sydd ar y cyfan yn ateb prif ofynion penodol y cwestiwn a osodwyd.<br>• Ceir cydlyniad, eglurder a threfn o safon foddhaol yn yr ateb.<br>• Mae'r ateb yn dangos dyfnder a/neu ehangder mewn rhai mannau. Defnydd boddhaol o dystiolaeth ac enghreifftiau.<br>• Cyfeiriadau cywir ar y cyfan at destunau cysegredig a ffynonellau doethineb, lle bo'n briodol.<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Sillafu, atalnodi a gramadeg priodol. |
| 2 | **4-6 marc**<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o grefydd a chred. Lefel sylfaenol o gywirdeb a pherthnasedd.<br>• Ateb sylfaenol, sy'n bodloni rhai o ofynion y cwestiwn a osodwyd.<br>• Ateb rhannol gywir â rhywfaint o gydlyniad, eglurder a threfn.<br>• Mae'r ateb yn dangos dyfnder a/neu ehangder cyfyngedig, gan gynnwys defnydd cyfyngedig o dystiolaeth ac enghreifftiau.<br>• Rhai cyfeiriadau cywir at destunau cysegredig a ffynonellau o ddoethineb, lle bo'n briodol.<br>• Rhywfaint o ddefnydd cywir o iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Rhai mân wallau sillafu, atalnodi a gramadeg sy'n ymddangos fwy nag unwaith. |
| 1 | **1-3 marc**<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig iawn o grefydd a chred. Lefel isel o gywirdeb a pherthnasedd.<br>• Ateb cyfyngedig iawn, heb fawr o ymgais i fynd i'r afael â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Ateb cyfyngedig iawn o ran cywirdeb, heb fawr o gydlyniad, eglurder na threfn.<br>• Mae'r ateb yn dangos dyfnder a/neu ehangder cyfyngedig iawn. Defnydd cyfyngedig iawn o dystiolaeth ac enghreifftiau.<br>• Ychydig o gyfeiriadau neu ddim cyfeiriadau o gwbl at destunau cysegredig a ffynonellau doethineb, lle bo'n briodol.<br>• Rhywfaint o afael ar iaith a geirfa arbenigol sylfaenol.<br>• Gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg sy'n effeithio ar ystyr ac eglurder y cyfathrebu.<br><br>**D.S. 1 marc ar y mwyaf y dylid ei roi i ateb 'gwybodaeth ar ei phen ei hun' yn unig.** |
| 0 | • Dim gwybodaeth berthnasol. |

ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | **Amcan Asesu AA2** – **Cwestiynau rhan (b)** *15 marc*<br>*Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar, ac ymagweddau at grefydd a chred, yn cynnwys eu harwyddocâd, dylanwad ac astudiaeth.* |
|---|---|
| **5** | **13-15 marc**<br>• Dadansoddiad beirniadol hyderus a gwerthusiad craff o'r mater.<br>• Ateb sy'n nodi'r materion a godwyd gan y cwestiwn yn llwyddiannus ac sy'n mynd i'r afael â nhw'n drylwyr.<br>• Ceir cydlyniad, eglurder a threfn o safon ragorol yn yr ateb.<br>• Safbwyntiau trwyadl, cyson a chlir wedi'u cefnogi gan resymeg a/neu dystiolaeth helaeth, fanwl.<br>• Defnydd trylwyr a chywir o iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Sillafu, atalnodi a gramadeg rhagorol. |
| **4** | **10-12 marc**<br>• Dadansoddiad pwrpasol a gwerthusiad effeithiol o'r mater.<br>• Ateb sy'n nodi'r prif faterion a godwyd gan y cwestiwn yn llwyddiannus ac sy'n mynd i'r afael â nhw.<br>• Ceir cydlyniad, eglurder a threfn o safon uchel iawn yn yr ateb.<br>• Safbwyntiau wedi'u cefnogi'n glir gan resymeg a/neu dystiolaeth fanwl.<br>• Defnydd cywir o iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Sillafu, atalnodi a gramadeg da iawn. |
| **3** | **7-9 marc**<br>• Dadansoddiad boddhaol a gwerthusiad perthnasol o'r mater.<br>• Ateb sy'n nodi'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd gan y cwestiwn yn llwyddiannus ac sy'n mynd i'r afael â nhw'n gyffredinol.<br>• Ceir cydlyniad, eglurder a threfn o safon foddhaol yn yr ateb.<br>• Y rhan fwyaf o'r safbwyntiau wedi'u cefnogi'n foddhaol gan resymeg a/neu dystiolaeth.<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Sillafu, atalnodi a gramadeg boddhaol. |
| **2** | **4-6 marc**<br>• Rhywfaint o ddadansoddiad dilys a gwerthusiad anghyson o'r mater.<br>• Ateb sy'n nodi nifer cyfyngedig o'r materion a godwyd gan y cwestiwn ac sy'n mynd i'r afael â nhw'n rhannol.<br>• Ateb rhannol gywir â rhywfaint o gydlyniad, eglurder a threfn.<br>• Ymgais sylfaenol i gyfiawnhau'r safbwyntiau, ond maent wedi'u cefnogi'n rhannol gan resymeg a/neu dystiolaeth.<br>• Rhywfaint o ddefnydd cywir o iaith a geirfa arbenigol mewn cyd-destun.<br>• Rhai mân wallau sillafu, atalnodi a gramadeg sy'n ymddangos fwy nag unwaith. |
| **1** | **1-3 marc**<br>• Dadansoddiad sylfaenol a gwerthusiad cyfyngedig o'r mater.<br>• Ateb cyfyngedig iawn o ran cywirdeb, heb fawr o gydlyniad, eglurder a threfn.<br>• Ceir ymgais i nodi a mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y cwestiwn.<br>• Fawr o ymgais i gyfiawnhau'r safbwynt gyda rhesymeg neu dystiolaeth.<br>• Rhywfaint o afael ar iaith a geirfa arbenigol sylfaenol.<br>• Gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg sy'n effeithio ar ystyr ac eglurder y cyfathrebu. |
| **0** | • Dim dadansoddi neu werthuso perthnasol. |

**Opsiwn D: Cyflwyniad i Astudiaeth o Fwdhaeth**

**CYNLLUN MARCIO**

I'w ddarllen ar y cyd â'r disgrifyddion lefel generig sydd wedi'u darparu.

**Adran A**

**1.** **(a)** Archwiliwch syniadau allweddol y Pedwar Gwirionedd Nobl. **[AA1 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o’r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Mae'r Pedwar Gwirionedd Nobl yn ddysgeidiaeth gynnar gan y Bwdha – gwirioneddau yr honnir i'r Bwdha eu canfod tra oedd o dan y goeden Bodhi.
- Y gwirionedd cyntaf – dukka yw bywyd i gyd. Disgwyliwch y bydd ymgeiswyr yn ymwybodol o anawsterau cyfieithu'r term hwn, a phwysigrwydd diffiniad ehangach. Os oedd dukka yn golygu dioddefaint yn unig, byddai'n hawdd gwrthbrofi'r gwirionedd cyntaf hwn. Fodd bynnag, mae dukka yn gysyniad llawer mwy cynnil a chymhleth, efallai mai annigonoldeb yw'r ffordd orau o'i gyfieithu. Disgwyliwch i ymgeiswyr ddefnyddio eu henghreifftiau eu hunain er mwyn dangos eu dealltwriaeth.
- Yr ail wirionedd – achos dukkah yw cydio, gafael, ymlyniad. Yn llythrennol mae 'tanha' yn golygu 'syched'. Dylai ymgeiswyr allu egluro hyn yn eu geiriau eu hunain a defnyddio enghreifftiau i ddangos eu dealltwriaeth.
- Y trydydd gwirionedd yw'r neges ei bod hi'n bosibl goresgyn ymlyniad a chrefu, hyd yn oed ar eu ffurfiau mwyaf cynnil.
- Mae'r pedwerydd gwirionedd yn cyhoeddi'r llwybr i gyrraedd 'nirodah' (dukkah yn dod i ben). Yng nghyd-destun Theravada, dyma'r Llwybr Wythblyg, ond mewn ysgolion eraill Bwdhaeth gallai hyn gael ei ddeall mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd (e.e. datblygiad doethineb a thosturi, llwybr bodhisattva, amrywiaeth yr arferion a argymhellir gan wahanol ysgolion Bwdhaeth).
- Efallai y bydd ymgeiswyr yn egluro bod y Pedwar Gwirionedd Nobl yn fformiwla sy'n adlewyrchu trosiad meddygol (diagnosis, adnabod symptomau, prognosis a thriniaeth).
- Yn rhan o'u harchwiliad, efallai bydd ymgeiswyr yn cysylltu'r Pedwar Gwirionedd Nobl â dysgeidiaeth Fwdhaidd arall (e.e. Tri nod bodolaeth, neu wirioneddau cyffredinol, pratityasamutpada, y tri thân/gwenwyn).
- Efallai bydd ymgeiswyr yn dangos eu hymwybyddiaeth fod y Pedwar Gwirionedd Nobl fel y cânt eu mynegi yn y fformiwla glir honno yn fwy adnabyddus mewn Bwdhaeth Theravada. Gall traddodiadau Mahayana ganolbwyntio ar ddioddefaint a rhyddhad o ddioddefaint mewn ffyrdd gwahanol iawn.

**Nid rhestr wirio yw hon, cofiwch roi marciau am atebion dilys eraill.**

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**1.** **(b)** ‘Mae'r Pedwar Gwirionedd Nobl yn hanfodol i bob Bwdhydd.’
Gwerthuswch y farn hon. **[AA2 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o’r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Mae'r Pedwar Gwirionedd Nobl yn ddysgeidiaeth gynnar gan y Bwdha, ac maen nhw wedi'u cyflwyno fel y gwirioneddau a ganfu pan gafodd ei ddeffroad.
- Mae'r Pedwar Gwirionedd Nobl yn cyfleu'n dwt llawer iawn o wybodaeth am natur cyflwr bodau ymdeimladol, a'r heriau a wynebir yn ystod bywyd, yn ogystal â chynnig ateb sydd wedi'i gyflwyno'n eglur. Gellid dweud bod y llwybr Bwdhaidd cyfan wedi'i gynnwys a'i grynhoi ynddyn nhw.
- Nid yw llawer o ysgolion (Mahayana) Bwdhaeth yn canolbwyntio mor benodol ar y Pedwar Gwirionedd Nobl, ond yn hytrach ar lwybr bodhisattva tuag at ddatblygu a pherffeithio tosturi llwyr, neu ar ddysgeidiaeth/arferion eraill, fel ymroddiad a diolchgarwch i fodau goleuedig neu ddatblygiad deall drwy arfer myfyrdod.
- Er na ellir dweud bod sôn penodol am y Pedwar Gwirionedd Nobl ar draws pob traddodiad Bwdhaidd, byddai modd dweud yn rhesymol bod Bwdhaeth i gyd yn ymdrin â dioddefaint a dod â diwedd i ddioddefaint.
- Efallai bod y Pedwar Gwirionedd Nobl yn cynnig disgrifiad o'r cyflwr dynol ac ateb iddo, ond dydyn nhw ddim yn dweud dim am reoli'r sangha, dim byd am ddysgeidiaeth bwysig arall fel myfyrdod.
- Efallai gallai Bwdhyddion Zen ddadlau mai'r cyfan sydd ei angen yw zazen, efallai bydd y Tir Pur yn dadlau mai'r cyfan sydd ei angen yw adrodd y nembutsu, hyd yn oed unwaith gyda ffydd, a bod y Pedwar Gwirionedd Nobl yn ddatblygiad deallusol diangen.
- Gallai Bwdhyddion Japan ddadlau, yn y cyfnod hwn o Mappo (Oes y Dharma Dirywiedig), ei bod hi'n amhosibl arfer dysgeidiaeth wreiddiol y Bwdha hanesyddol yn llwyddiannus, a bod angen dysgeidiaeth newydd, fwy hygyrch.
- Gallai llawer o Fwdhyddion ddadlau mai'r peth pwysicaf am Fwdhaeth yw ei bod yn dysgu tosturi a charedigrwydd. Mae'r Dalai Lama yn dweud 'caredigrwydd yw fy nghrefydd'.

**Yn gyffredinol, dylai ymgeiswyr drafod y dadleuon a dod i werthusiad ar sail rheswm sy'n ymwneud â'r mater dan sylw.**

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**2.** **(a)** Archwiliwch y dasa sila (y deg rheol). **[AA1 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o'r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Mae'r deg rheol yn cael eu cymryd gan nofisiaid (neu samaneras) yn y sangha, ac maen nhw'n debyg i'r wyth rheol y mae pobl leyg yn eu cymryd ar ddiwrnodau Uposatha (diwrnodau o ymrwymiad o'r newydd i'r dharma, er enghraifft y diwrnodau pan gaiff y Patimokkah ei adrodd) ond cânt eu datblygu drwy rannu'r rheol sy'n ymwneud ag adloniant yn ddwy ran ac ychwanegu un rheol sy'n gwahardd trafod arian.
- Mewn rhai traddodiadau mae bechgyn yn treulio peth amser fel samaneras (ac, yn llai cyffredin, merched fel samaneris) fel mater o drefn, ac maen nhw'n cymryd y dasa sila. Mewn traddodiadau eraill mae amser fel nofis yn cael ei ystyried yn gam cyntaf ar y llwybr tuag at ordeinio i mewn i'r sangha.
- Maen nhw i gyd yn ymwneud ag 'ymatal' rhag arferion penodol, sy'n gofyn am ddatblygu cryn ddealltwriaeth a disgyblaeth.
- Y rhain yw: Rwy'n ymgymryd â'r rheol i ymatal rhag (1) difa creaduriaid byw;
  (2) cymryd yr hyn nad yw'n cael ei roi; (3) gweithgaredd rhywiol; (4) siarad yn anghywir; (5) diodydd meddwol a chyffuriau sy'n arwain at esgeulustod; (6) bwyta ar yr adeg sy'n cael ei gwahardd (h.y., ar ôl hanner dydd); (7) dawnsio, canu, cerddoriaeth, mynd i weld adloniant;
  (8) gwisgo garlantau, defnyddio persawr, a harddu'r corff â cholur;
  (9) gorwedd ar le cysgu uchel neu foethus; (10) derbyn aur ac arian.
- Bydd ymgeiswyr yn egluro arwyddocâd pob rheol, gan ddangos eu dealltwriaeth o werth y rheolau. Er enghraifft, efallai y byddant yn ymhelaethu ar reol osgoi siarad yn anghywir. Mae hyn yn golygu nid yn unig osgoi dweud celwydd, ond hefyd osgoi gorliwio, hel clecs, siarad yn ddadleugar, siarad sy'n arwain at wrthdaro, neu'n ysgogi casineb, neu sy'n ysgogi beirniadaeth ar y sangha.
- Rheolau yw'r rhain sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddi at y bywyd crefyddol, yn hytrach na 'gorchmynion'.

**Nid rhestr wirio yw hon, cofiwch roi marciau am atebion dilys eraill.**

**2.** **(b)** 'Mae rheolau'n hanfodol i Fwdhyddion heddiw.'
Gwerthuswch y farn hon. **[AA2 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o’r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Efallai bydd ymgeiswyr yn nodi nad 'rheolau' yw'r rhain, ond ymrwymiadau sydd wedi'u gwneud er mwyn datblygu yn y bywyd ysbrydol. Hyd yn oed yn Thervada, pedwar 'parajika' yn unig sydd, sy'n gallu arwain at gael eich diarddel o'r sangha. Nid oes gan 'reolau' fel y cyfryw lawer o ran, hyd yn oed mewn sangha mynachaidd. Mae'r ymarferwyr yn 'gweithio gyda' rheolau.
- Mae'r bywyd mynachaidd wedi'i gyfyngu'n llawer mwy gan reolau nag y mae bywyd lleyg, ond dydy hyn ddim yn golygu bod y pum rheol i leygwyr yn ddibwys.
- Efallai bydd ymgeiswyr yn dehongli Bwdhyddion modern fel 'Bwdhyddion Gorllewinol' (os ydyn nhw'n nodi bod Bwdhyddion modern yn Asia hefyd, byddai hynny'n haeddu marciau). Efallai y byddan nhw'n dadlau bod llai o ddiddordeb gan Fwdhyddion Gorllewinol mewn dilyn rheolau nag sydd ganddyn nhw mewn elwa o arfer myfyrdod.
- Gall ymgeiswyr ddadlau bod llawer o Fwdhyddion Gorllewinol yn cymryd rheolau neu'n newid eu ffordd o fyw'n sylweddol o ganlyniad i'w credoau crefyddol. Gall hyn gynnwys dilyn yr hyn sy'n ymddangos yn 'rheolau' er enghraifft am lysieuaeth, neu am beidio â meddwi.
- Efallai bydd ymgeiswyr yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ynghylch a yw rheolau'n ddefnyddiol er mwyn byw bywyd da (cysylltiad yma â materion ym maes moeseg – Cyfraith Naturiol v Moeseg Sefyllfa) neu a yw'r 'diffyg rheolau' canfyddedig mewn Bwdhaeth yn fantais.
- Efallai bydd ymgeiswyr yn dadlau nad yw Bwdhaeth yn y pen draw yn ymwneud â dilyn neu beidio â dilyn rheolau, ond â'r ymdrech i oresgyn trachwant, casineb a rhithdyb, ac i frwydro â dioddefaint lle bynnag y mae'n codi, sy'n broses lawer mwy cymhleth a chynnil na dilyn rheolau.
- Felly hefyd efallai bydd ymgeiswyr yn dadlau bod Bwdhaeth yn y pen draw yn ymwneud ag ymroi personol i fwdhas, bodhisattavas neu destunau penodol, ac nad yw'n ymwneud â rheolau.

**Yn gyffredinol, dylai ymgeiswyr drafod y dadleuon a dod i werthusiad ar sail rheswm sy'n ymwneud â'r mater dan sylw.**

## Adran B

**3.** **(a)** Esboniwch yr adroddiadau am enedigaeth y Bwdha hanesyddol. **[AA1 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o'r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Bydd ymgeiswyr yn ymgysylltu â chysyniadau purdeb defod yn yr hanes (nid yw'r enedigaeth yn un arferol, felly mae'n herio disgwyliadau amhurdeb defodol normal ynghylch rhoi genedigaeth).
- Mae datblygiadau chwedlonol ar y stori'n dangos sut roedd y ffigur hwn yn cael ei ganfod gan y bobl a oedd yn ei gofio.
- Mae'r stori'n archdeip ac wedi'i modelu ar storïau eraill am enedigaeth arweinwyr mawr.
- Bydd ymgeiswyr yn nodi'r esboniadau hyn yn eu hanes: Roedd Maya, mam Siddhartha, yn ymwybodol y byddai'n rhoi genedigaeth i arweinydd mawr oherwydd ei breuddwyd am eliffant gwyn. Fel oedd yn arferol, dechreuodd ar ei ffordd i dŷ ei rhieni i roi genedigaeth. Anfonodd Suddhodana filwyr o'i blaen i glirio'r ffordd a gosododd eraill i'w hamddiffyn hi wrth iddi gael ei chario mewn palanquin wedi'i addurno. Gadawodd Kapilavatthu mewn gosgordd hir a phasio gardd o'r enw Parc Lumbini, a gofynnodd Maya a gâi hi stopio. Gorffwysodd hi, gan bwyso ar un o'r coed Sala, a rhoi genedigaeth i'r baban o'i hystlys. Digwyddodd yr enedigaeth adeg lleuad lawn (sydd bellach yn cael ei dathlu fel Vesak, gŵyl genedigaeth, deffroad a marwolaeth y Bwdha).
- Yn ôl y traddodiadau testunol, cerddodd y baban saith cam ymlaen ac ar bob cam ymddangosodd blodyn lotws ar y llawr. Yna, ar y seithfed cam, stopiodd a gweiddi gyda llais pendefigaidd: "Fi yw pennaeth y byd, dyma'r enedigaeth olaf. Bellach nid oes mwy o ddod i fod."
- Efallai bydd ymgeiswyr yn cyfeirio hefyd at y broffwydoliaeth a wnaeth Asita am y ddau bosibilrwydd i Siddhartha, fel arweinydd byd, neu athro sanctaidd.

**Nid rhestr wirio yw hon, cofiwch roi marciau am atebion dilys eraill.**

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**3.** **(b)** ‘Dydy'r storïau am y Bwdha ddim i fod i gael eu cymryd yn llythrennol.' Gwerthuswch y farn hon. **[AA2 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o’r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Efallai bydd ymgeiswyr yn dadlau fod stori bywyd y Bwdha yn ffaith i lawer o Fwdhyddion, a'u bod yn ei derbyn heb ei hamau.
- Fodd bynnag, ychydig o Fwdhyddion a fyddai'n mynnu dehongliad ffwndamentalaidd/llythrennol. Yn hytrach, ni fyddai 'amau' y stori'n cael ei ystyried yn fedrus neu'n ddefnyddiol ar y llwybr i oleuedigaeth.
- I lawer, nid oes gan y stori bwysigrwydd hanesyddol. Nid oes gwahaniaeth a fu'r Bwdha yn byw ai peidio, heb sôn am a yw'r storïau amdano'n 'gywir' ai peidio. Y peth pwysig yw bod y dharama yn bodoli. Mae'n debyg i'r Bwdha ddweud, 'Mae'r sawl sy'n gweld y dharma, yn fy ngweld i.'
- Mae stori'r Bwdha yn un ffordd ddiddorol yn unig o gyfathrebu agweddau ar y dharama, mae'r ystyr yn bwysicach nag a yw'r cynnwys yn ffeithiol hanesyddol.
- Mae'r Bwdha yn un bod goleuedig yn unig ymysg llawer mewn Bwdhaeth, felly nid yw'r storïau amdano'n fwy arwyddocaol na storïau am unrhyw fod goleuedig arall.
- Nid oes rheswm pam mae storïau am y Bwdha yn bwysicach na storïau am bodhisattvas penodol, neu, er enghraifft, Amida Buddah sy'n ganolbwynt defosiwn mewn Bwdhaeth Gwlad Bur.
- Byddai'n bosibl cymryd rhai elfennau o stori bywyd y Bwdha yn fwy llythrennol nag eraill, er enghraifft i rai Bwdhyddion (ond nid i bob un), mae Deffroad y Bwdha yn ffaith hanesyddol.
- Mae'r storïau ym mywyd y Bwdha yn llawer mwy dealladwy pan fyddant yn cael eu darllen gydag ymwybyddiaeth o'r cyd-destun crefyddol a chymdeithasol y cawson nhw eu creu ynddynt.
- Mae'r storïau'n bwysig am eu hystyr, nid am eu cynnwys. Maen nhw'n hagiograffaidd, sy'n golygu eu bod yn dweud mwy wrth y darllenydd am y gymuned a gofnododd y storïau nag y maen nhw'n ei ddweud am y cymeriadau yn y storïau.

**Yn gyffredinol, dylai ymgeiswyr drafod y dadleuon a dod i werthusiad ar sail rheswm sy'n ymwneud â'r mater dan sylw.**

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**4.** **(a)** Archwiliwch nodweddion deffroad y Bwdha o dan y goeden Bodhi.

**[AA1 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o'r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Roedd Siddhartha (nad oedd wedi dod yn Fwdha tan iddo gael Deffroad) wedi rhoi'r gorau i geisio cael rhyddid drwy lwybrau asgetig o dan Alara Kalama ac Uddaka Ramaputta ac roedd wedi cyhoeddi'r Ffordd Ganol. Eisteddodd o dan y goeden (a gafodd ei galw wedyn yn goeden Bodhi), gan gofio profiad blaenorol o jhana (yn ystod gŵyl aredig) a phenderfynodd na fyddai'n symud tan iddo dreiddio i natur wirioneddol pethau.
- Yn ystod pedwar gwyliadwriaeth y nos, cafodd fewnwelediad i'w fywydau yn y gorffennol, mewnwelediad i sut roedd karma ac ailenedigaeth yn gweithio i bob bod, ac, yn ôl rhai adroddiadau, mewnwelediad i'r Pedwar Gwirionedd Nobl.
- Fel y cyfryw cafodd Ddeffroad llawn, cyrhaeddodd nirvana, ac ar yr adeg hon mae'r teitl 'Bwdha' yn dod yn briodol.
- Yn ôl rhai adroddiadau daeth Mara (Arglwydd marwolaeth a rhith) â'i ferched i hudo Siddhartha tra oedd yn myfyrio. Daliodd Siddhartha ati i ganolbwyntio. Yna anfonodd Mara fyddinoedd o angenfilod i ymosod arno. Yna honnodd mai ei eiddo ef mewn gwirionedd oedd yr oleuedigaeth ac nid eiddo Siddhartha, oedd yn feidrol. Cyhoeddodd milwyr Mara, a oedd yn ddiafoliaid, eu bod yn dystion iddo a heriodd Mara Siddhartha, 'pwy fydd yn siarad ar dy ran di?' Ar hyn, yn ôl yr hanes, dyma Siddhartha, nad oedd wedi'i gyffroi gan yr ymdrechion hyn i newid ei lwybr, yn estyn ei law dde i gyffwrdd â'r ddaear, a siaradodd y ddaear ei hun: "Rwy'n dyst i ti!" Diflannodd Mara. Ac wrth i'r seren fore godi yn yr awyr, cyrhaeddodd y Deffroad.
- Yn ôl rhai hanesion, daliodd y Bwdha ati i eistedd, gan brofi llawenydd goleuedigaeth, tan iddo gael ei berswadio i addysgu gan y duw Brahma Sahampati.

**Nid rhestr wirio yw hon, cofiwch roi marciau am atebion dilys eraill.**

**4.** **(b)** 'Deffroad y Bwdha yw'r digwyddiad mwyaf pwysig mewn Bwdhaeth.'
Gwerthuswch y farn hon. **[AA2 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o'r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Datguddiodd deffroad y Bwdha wirioneddau canolog Bwdhaeth, megis natur karma ac ailenedigaeth, pratityasamutpada a'r Pedwar Gwirionedd Nobl.
- Mae deffroad y Bwdha yn drobwynt yn ei fywgraffiad – lle mae anobaith yn cael ei oresgyn.
- Roedd pob un o fywydau blaenorol niferus y Bwdha, a gafodd eu hadrodd yn Hanesion Jataka, wedi'u cyfeirio tuag at gyflawni'r agwedd hon ar ei fywyd yn y pen draw.
- Cafodd llwybr ei ddatguddio drwy'r ffordd y cafodd y Bwdha Ddeffroad, ac felly galluogodd eraill i ddilyn y llwybr.
- Mae'n bosibl dweud bod y traddodiad Bwdhaidd cyfan wedi'i seilio ar ddigwyddiad Deffroad y Bwdha.
- Byddai modd dadlau, petai'r Bwdha wedi cael Deffroad, ond wedyn heb addysgu, na fyddai unrhyw Fwdhaeth. Mae hon yn ddadl mai penderfyniad y Bwdha i addysgu yw'r digwyddiad pwysicaf mewn Bwdhaeth.
- Gall ymgeiswyr ddadlau mai genedigaeth y Bwdha yw'r digwyddiad pwysicaf, oherwydd petai heb gael ei eni, ni fyddai wedi cael Deffroad. Byddai hon yn ddadl wan, er y gallai ymgeiswyr ei chryfhau drwy gyfeirio at Bwdha Maitreya nad yw eto wedi'i eni yn y byd dynol yn ôl rhai traddodiadau.
- Efallai bydd ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y ffaith mai dysgeidiaeth allweddol yw'r agwedd bwysicaf ar Fwdhaeth, pwy bynnag a'i gwireddodd a phwy bynnag sy'n ei haddysgu. Rhywbeth damweiniol yn unig yw bywyd y Bwdha, nid rhywbeth hanfodol. 'Mae'r sawl sy'n gweld y dharma yn fy ngweld i.'
- Mewn rhai ffurfiau ar Fwdhaeth nid yw bywyd y Bwdha yn bwysig o gwbl. Ym Mwdhaeth y Wlad Bur, er enghraifft, mae Llw Amida yn bwysicach na deffroad y Bwdha hanesyddol ar yr adeg honno.

**Yn gyffredinol, dylai ymgeiswyr drafod y dadleuon a dod i werthusiad ar sail rheswm sy'n ymwneud â'r mater dan sylw.**

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**5.** **(a)** Esboniwch rôl a phwysigrwydd dana (rhoi) mewn Bwdhaeth.

**[AA1 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o’r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Er nad oes sôn am roi (dana) yn y Llwybr Wythblyg, dywedir ei fod yn rhinwedd sylfaenol mewn Bwdhaeth.
- Dyma'r cyntaf o'r paramitas.
- 'Meithrin haelioni' yw dana. Felly er gallai rhywun feddwl am hyn ar lefel syml fel rhoi arian, ymdrech, arian neu nwyddau i'r sangha, mae'n fwy na hyn. Mae'n golygu datblygu agwedd rhoi - nid i'r sangha yn unig, ond i unrhyw un mewn angen (y tlawd, rhai ar yr ymylon) neu i brosiectau dyngarol sydd wedi'u llunio i ddod â bywydau gwell i fodau ymdeimladol neu i fod o fudd i'r amgylchedd.
- Mae arfer dana yn puro meddwl y rhoddwr a'i ganlyniad yw cynhyrchu punya (teilyngdod).
- Arfer heb feddwl am wobr bersonol yw dana. Mae hon yn ddisgyblaeth ysbrydol anodd. Mae'n bosibl ymgymryd â dana gyda chymhellion 'amhur' – er enghraifft, oherwydd bod rhywun wedi'i ysgogi gan gywilydd ac euogrwydd, neu er mwyn 'ymddangos yn rhywun sy'n rhoi' i'r byd y tu allan. Neu mae'n bosibl ymgymryd â dana gyda chymhellion 'pur', lle nad yw person yn meddwl am ymelwa, a heb ymlyniad i'r rhodd neu i'r person sy'n derbyn.
- Mae dana yn arfer sy'n helpu i danseilio hunanoldeb, ego ac ymlyniad i'r syniad o 'fi' a'r 'hyn sy'n eiddo i mi'. Mae'n gwneud hyn drwy ddatblygu ymdeimlad o drosgynnu'r hunan. Felly mae'n weithgaredd sy'n cadarnhau dysgeidiaeth sylfaenol Bwdhaeth, sef dim hunan neu anatta.
- Mae'r ysbryd haelioni sy'n cael ei gynhyrchu wrth arfer dana hefyd yn arwain at ddiolchgarwch am y dana a gafodd ei dderbyn. Ar lefel y gwirionedd eithaf nid oes gwahaniaeth rhwng y rhoddwr a'r person sy'n derbyn.

**Nid rhestr wirio yw hon, cofiwch roi marciau am atebion dilys eraill.**

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**5.** **(b)** 'Mae punya (teilyngdod) yn dibynnu ar dana (rhoi).'
Gwerthuswch y farn hon. **[AA2 15]**

**Gallai ymgeiswyr gynnwys rhai o'r canlynol, ond dylid rhoi credyd am bwyntiau perthnasol eraill.**

- Mae punya a dana yn gysylltiedig oherwydd bod punya neu deilyngdod yn codi o arfer dana. Mae achos i bob effaith.
- Dana yw'r brif ffordd o ddatblygu punya. Mae'r ddau gysyniad yn mynd law yn llaw.
- Gallai pobl leyg roi help ymarferol neu ddeunyddiau i'r sangha, a gall aelodau'r bhikkhu/bhikkhuni sangha roi arweiniad a dysgeidiaeth ysbrydol i'r bobl leyg. Mae'r ddau fath o roi'n dod â theilyngdod i'r rhoddwyr.
- Mae dana yn nodwedd ar ddiwylliannau Bwdhaidd ledled y byd, oherwydd ei fod yn gallu dod â punya. Mae datblygu ysbryd haelioni (nid arfer syml rhoi pethau materol, amser neu ddoniau'n unig) yn ganolog i fywyd Bwdhydd ac mae'n arwain at effeithiau cadarnhaol (punya) i'r unigolyn ac i'r gymuned (sangha).
- Nid dana yw'r unig ffordd o ddatblygu punya. Gall punya gael ei ddatblygu hefyd drwy sila, neu drwy fyw bywyd rhinweddol a dilyn y cynghorion.
- Gall punya gael ei ddatblygu hefyd drwy'r ymdrech sydd ynghlwm wrth lafarganu sutras/suttas.
- Gall punya gael ei ddatblygu hefyd drwy'r ymdrech a'r ymrwymiad sydd ynghlwm wrth arfer myfyrdod o ddifrif.
- Gall punya gael ei gynhyrchu hyd yn oed drwy wneud ymdrech dros brosiect creadigol sydd wedi'i lunio er mwyn gwneud i fywydau pobl fod yn well neu er mwyn hyrwyddo'r dharma.
- Teilyngdod sy'n effeithio ar karma yw punya.
- Gall punya ei hun fod yn dana – mae'n arfer cyffredin i Fwdhyddion fynegi'r bwriad bod modd i'r punya sy'n codi o arfer neu weithred rhoi benodol gael ei ddefnyddio er lles rhywun heblaw am y rhoddwr. Nid oes rhaid i'r teilyngdod hwn fod i rywun byw, gall fod i'r marw neu i bersonau nad yw'r rhoddwr yn eu hadnabod yn bersonol.
- 'Maes teilyngdod' yw'r sangha, felly mae punya yn dibynnu ar y sangha.

**Yn gyffredinol, dylai ymgeiswyr drafod y dadleuon a dod i werthusiad ar sail rheswm sy'n ymwneud â'r mater dan sylw.**



ⓗWJEC CBAC Cyf.